Mumbles Community Council

# Minutes of the Mumbles Community Special Council Meeting – 23rd March at 6.30pm (Hybrid Meeting at the Ostreme Centre and via Teams)

**Members Present:** Cllrs Will Thomas (Chair), Francesca O'Brien, Carrie Townsend Jones, Ian Scott, Rob Marshall, Angela O'Connor, Helen Nelson, Phil Keeton, and Laura Gilbert

**Officers Present**: Kerry Grabham – CO and Ian Hughes – CSO.

Prior to the meeting commencing, The Chair, Cllr Thomas paid tribute to Cllr Paxton Hood-Williams, a former Lord Mayor who had recently passed away following a short illness. Paxton was a well-respected councillor who had served the whole of Swansea but in particular the communities of Killay, Fairwood and Three Crosses with distinction for decades. Cllr Thomas wished to pass on his condolences on behalf of the whole Council to Paxton's family.

| | |
|---|---|
| SC02603-01 | **Apologies for Absence**: Cllrs - Dave Lewis, Sara Keeton, Xanthe Keeton, Rebecca Fogarty, Tim Zhou, Martin O'Neill (Vice Chair) and Trevor Carr. |
| SC02603-02 | **Declarations of Interest:**<br>Cllr O'Connor declared a personal interest in relation to agenda item SC02603-08 due to a family member being connected to Mumbles Rugby Club.<br><br>Cllr Thomas declared a personal interest in relation to agenda item SC02603-18 due to his participation as an under 9's coach with Mumbles Rangers Football Club.<br><br>Cllr Townsend Jones subsequently declared a personal interest in relation to agenda item SC02603-10 due to her friendship with the applicant of the Bantani Cymru Grant Application.<br><br>In addition it was noted that two agenda items (SC02603-07 Grant Application Received From Bristol Channel Yacht Club and SC02603-09 Oystermouth Cemetery Steps) had previously been discussed and voted upon during the Full Council Meeting held on 10th March 2026, but that due to a clerical error they had been omitted from the published agenda.<br><br>**RESOLVED** Both agenda items SC02603-07 Grant Application Received From Bristol Channel Yacht Club and SC02603-09 Oystermouth Cemetery Steps to be reconsidered at present meeting. |

| | |
|---|---|
| | |
| SCO2603-03 | **Public Participation**<br>(In accordance with Section 48 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 and the Standing Orders of Mumbles Community Council. Members of the Public may make representations only on published agenda items. Members of the Public who wish to make representations must inform the Chief Officer at least 3 working days before the meeting. For further guidance, please refer to the Public Participation Policy on the Council's Website.)<br><br>The Chair, Cllr Thomas outlined the procedures for public participation.<br><br>No members of the public were present at the commencement of the meeting.<br><br>Mr Philip Slater joined the meeting between 6.43 and 6.47pm. Mr Slater had indicated prior to the meeting that he wished to attend in relation to correspondence from the Mayals Friends and Residents' Group (**SCO2603-06** refers). The CSO had provided a link to Mr Slater prior to the meeting.<br><br>Cllr Nelson, joined the meeting at 7.34pm |
| SCO2603-04 | **To Approve the Minutes of the Full Council Meeting held on the 10th March 2026**<br><br>**RESOLVED** To approve the minutes of the Full Council Meeting held on 10th March 2026 as a true record. |
| SCO2603-05 | **To Appoint a councillor as School Governor to Llwynderw**<br>No councillor volunteered to be appointed for the vacancy of School Governor to Llwynderw.<br><br>**RESOLVED** In the absence of a number of councillors at the meeting, CO to redistribute the vacancy to councillors and address the matter at the next Full Council Meeting. |
| SCO2603-06 | **To Receive Correspondence From Mayals Friends and Residents' Group - Response to NPPF Consultation (Chapter 9 – Telecommunications) – Question 95**<br>Cllr Nelson set out the concerns of local residents, in particular Philip and Caroline Slater who had expressed concerns over the siting of a mobile phone mast in The Mayals. These concerns had been set out in as letter circulated to councillors prior to the meeting.<br>A discussion took place on how best to progress these concerns and it was the consensus of the committee that a letter should be sent to SCC/Welsh Government on behalf of MCC outlining the concerns in question.<br><br>**RESOLVED** Cllr Nelson to draft out a letter setting out the concerns detailed above for the attention of SCC/Welsh Government. Councillors and The CO will have 24 hours to address any concerns in relation to the wording of the letter. |

| | |
|---|---|
| SCO2603-07 | **To Consider the Grant Application Received From Bristol Channel Yacht Club – Lord Mayor Regetta**<br><br>The Chair, Cllr Thomas outlined that this grant application had been discussed and approved at the previous Full Council Meeting (10.03.2026) although it had not been correctly published on the agenda.<br><br>The application was discussed and although councillors were supportive of the application concerns were raised that insufficient detail on expenditure had been included within the application.<br><br>**RESOLVED** that a grant application for £5,000 be awarded to Bristol Channel Yacht Club to contribute towards The Lord Mayor's Regetta, subject to The CO receiving clarification on expenditure.<br>**From Budget FC1 Small and Medium Grants.**<br><br>During this agenda item, Mr Philip Slater joined the meeting at 6.43pm.<br>Following the resolution of this item The Chair, Cllr Thomas outlined the outcome of the previous item (SCO2603-06) for the benefit of Mr Slater who then left the meeting at 6.47pm |
| SCO2603-08 | **To Consider the Grant Application Received From Mumbles Rugby Club – Junior Festival**<br>The Chair, Cllr Thomas outlined this grant application and it was discussed by councillors. The CO noted that if successful the applicant would be provided with a rent-free 3G pitch and that the grant would cover ancillary costs such as children's inflatables. All councillors were supportive of the application.<br><br>**RESOLVED** that a grant application for £1,000 be awarded to Mumbles Rugby Club to contribute towards the running of a junior rugby festival, Daniel de Jesus.<br>**From Budget FC1 Small and Medium Grants.** |
| SCO2603-09 | **Oystermouth Cemetery Steps**<br>The Chair, Cllr Thomas outlined that this grant application had also been discussed and approved at the previous Full Council Meeting (10.03.2026) although it had not been correctly published on the agenda.<br><br>The application was discussed and has a total anticipated cost of £15,000. Councillors were supportive of improving access between Newton and Mumbles for many people and not just those who wish to have access to the cemetery. With £12,000 having already been earmarked for the project, the remaining £3,000 has been donated through councillors' individual budgets.<br><br>**RESOLVED** that the Oystermouth Cemetery Steps near Slade Road be improved with a total budget of £15,000, £3,000 of which consists of councillors' donations. |

| | |
|---|---|
| **SCO2603-10** | **To Consider Recommendations from Finance & Governance Committee**<br><br>**Cllr Marshall, The Chair of The Finance and Compliance Committee outlined the following recommendations from The Finance and Compliance Committee Meeting held on 16th March 2026**<br><br>**1. Linden Church Trust Grant Application**<br>Grant Application for £6,000 to contribute towards the running costs of West Cross Youth Club<br><br>Councillors were supportive of this application and noted that this application was only for one year, when the previous application had been for three years.<br><br>**ACTION** When the applicant is updated of the Council's Recommendation, to be informed that Full Council would re-consider a further application covering a three-year period.<br><br>**RESOLVED** That a Grant of £6,000 be awarded to Linden Church Trust, to contribute towards the running costs of West Cross Youth Club<br><br>From **Budget FC1** Small and Medium Grants.<br><br>Cllr O'Brien left the meeting at 6.53pm<br><br>**2. HWV Collective CIC Grant Application**<br>Grant Application for £2,000 to widen access to practical STEM learning for young people in Mumbles/Swansea through a small-scale prototype programme.<br><br>Full Council were supportive of the committee members' views that whilst supportive of the scheme they were concerned that there was insufficient information from the applicant. In addition, Full Council also considered that MCC grants were not suitable for educational programmes of this kind, and that an application would be more favourably viewed once a 'trial' or 'pilot' programme had taken place and properly assessed.<br><br>**ACTION** When the applicant is updated on the rationale for not approving the grant, it should be indicated that MCC priorities grants for projects within the area covered by MCC.<br><br>**RESOLVED** Not to grant an application for £2,000 to HWV Collective CIC, to widen access to practical STEM learning for young people in Mumbles/Swansea through a small-scale prototype programme.<br><br>Cllr O'Brien returned to the meeting at 6.57pm |

| | |
|---|---|
| | **3. Bantani Cymru CIC Grant Application**<br>Grant Application for £2,200 to contribute to Cynefin Project at Oystermouth Castle.<br><br>Cllr Townsend Jones declared a personal interest in relation to this agenda item due to her friendship with the applicant. Recorded at **SC0260302**.<br><br>Councillors were supportive of this application and concurred with committee members that whilst educational, the focus of the project concerned furthering knowledge of local heritage and Oystermouth Castle in particular.<br><br>**RESOLVED** That a grant for £2,200 be awarded to Bantani Cymru CIC to contribute to the Cynefin Project at Oystermouth Castle.<br><br>From **Budget FC1** Small and Medium Grants.<br><br>**4. Mumbles Bowls Club Grant Application**<br>Grant Application for £800 to contribute towards the maintenance costs of the bowling green.<br><br>**RESOLVED:** Councillors agreed with committee members that the Mumbles Bowls Club application should be deferred until the next committee meeting in May pending clarification on their bank balance. Previous applications to be checked for similar queries. |
| **SC02603-11** | **To Consider a Report from Story of Mumbles – The Plinth**<br>The Chair, Cllr Will Thomas had distributed a document prior to the meeting. Cllr Thomas set out key aspects from this report including the background to how the plinth had been erected at the end of World War II and that it had been removed due to the seafront defence re-development work being carried out.<br><br>A discussion took place on the future restoration and installation of The Plinth. The Story of Mumbles have agreed to assist in a voluntary capacity with the cleaning and restoration of The Plinth. Cllr Thomas proposed that £250 be granted for restoration and that following the restoration MCC liaise with SCC in relation to the siting, including transportation of the plinth.<br><br>**RESOLVED**: That £250 be granted for the restoration of The Plinth.<br>From **Contingency** Funds. |
| **SC02602-12** | **To Receive and Approve Council's Financial Risk Register**<br>The CO had circulated the Council's Financial Risk Register prior to the meeting and highlighted key aspects to Councillors.<br><br>During the discussion that followed the register was well received with a number of minor amendments needing to be made.<br><br>**RESOLVED**: To approve the Council's Financial Risk Register, subject to the CO making the identified minor alterations. |

| | |
|---|---|
| SCO2603-13 | **To Receive and Approve Council's Annual Report**<br>The CO had circulated the Council's Annual Report prior to the meeting and highlighted key aspects to Councillors.<br><br>During the discussion that followed Councillors praised the CO for delivering such a high-quality report in such challenging circumstances. A number of typos were apparent which together with suggestions on the structure of the report that will be addressed through Councillors e-mailing amendments.<br><br>**ACTION** Cllr Townsend Jones to forward an amended report to CO following typos and other minor alterations being made.<br>Any Councillor with suggestions for further amendments to e-mail CO as a matter of urgency.<br><br>**RESOLVED**: To approve the Council's Annual Report subject to the CO making any alterations as identified by Councillors. |
| SCO2603-14 | **To Consider and Approve Council's Mission Statement**<br>The CO had circulated a document outlining proposed mission statements prior to the meeting. The CO then highlighted key aspects to Councillors and explained that the three options had been provided in consultation with the Working Group.<br><br>During the discussion that followed the options were considered but opinion was divided on the most suitable, resulting in a vote taking place on the three options was we-received with a number of minor amendments needing to be made.<br><br>**RESOLVED**: To approve the third option for MCC's Mission Statement namely: -<br><br>***Vision**:*<br>*A vibrant, connected, and welcoming Mumbles—where people, places, and community life thrive.*<br><br>***Mission***<br>*To strengthen our community by investing in inclusive spaces, supporting local initiatives, enhancing well-being and the environment, and ensuring our decisions reflect the voices of residents.* |
| SCO2603-15 | **To Receive and Approve Council's Internal Audit Recommendations Progress**<br>The CO had circulated the Progress Report on the Council's Internal Audit Recommendations prior to the meeting. The CO highlighted key aspects to Councillors and addressed their questions.<br><br>**RESOLVED**: To approve the Progress Report on the Council's Internal Audit Recommendations. |

| | |
|---|---|
| **SCO2603-16** | **To Receive and Approve an Update on Underhill**<br>The CO informed Council that SCC had yet to provide a written update on Underhill. The Chair, Cllr Thomas informed Councillors that he had attended a Cabinet Meeting with SCC in his capacity as a SCC Councillor. Whilst not in a position to disclose privileged information, Cllr Thomas could confirm that there had been a positive outcome to the meeting in relation to Underhill.<br><br>**RESOLVED**: To defer this agenda item until the next Full Council Meeting in May 2026. |
| **SCO2603-17** | **To Approve Planning Permission for a Running Track at Underhill Park**<br>The Chair, Cllr Thomas provided clarification and background to this item. Cllr Thomas outlined that the idea of a running track was at the initial stages and that he was seeking support in principle for the idea. The track in question relates to creating a new path adjacent to the hedge of the eastern side of Underhill Park. This would create a perimeter path around Underhill thereby creating a track for those wishing to exercise, particularly joggers and walkers.<br>In discussion it was acknowledged that consultation with key stakeholders and the community as a whole would be essential.<br>The vast majority of the Council were enthusiastic about this project, whilst recognising that its completion is likely to be some years away.<br><br>**RESOLVED**: To support the concept of a perimeter running/walking track around Underhill Park. |
| **SCO2603-18** | **To Approve Planning Permission to make Underhill Tier Two FAW Compliant for Welsh League Football. Allowing Mumbles Rangers First and Second Team to return to Underhill**<br>The Chair, Cllr Thomas provided background information to this item and outlined the aims of local football clubs in obtaining Tier Two, FAW compliant facilities for Welsh League Football.<br>This application was supported by Council<br><br>**RESOLVED**: To approve planning permission to make Underhill Tier Two FAW Compliant for Welsh League Football. |
| **SCO2603-19** | **To approve the Virement of the Chairs' Allowance to create a new budget line of Civic Regalia and to agree the purchase of a new Chairs Chain.**<br>The Chair, Cllr Thomas outlined that he will forgo a percentage of his remuneration as Chair to purchase a new chain of office.<br>Cllr Thomas also outlined that he would not wear or use the chain whilst in office but it was something that he wanted to give to The Village, after his time as Chairman.<br><br>**RESOLVED**: Councillors were supportive of Cllr Thomas' proposal and approved any future purchase. The consensus of opinion within Full Council was that Cllr Thomas should wear any new chain himself prior to him finishing as Chair. |

| | |
|---|---|
| SCO2603-20 | **To Approve Delegated powers to the Chief Officer from 26th March 2026 to 8th May 2026, known as the Pre-election Period.**<br>The CO set out the need for delegated powers during the Pre-Election Period leading up to the Senedd Cymru Election in May 2026. The CO then addresses questions from Councillors.<br><br>**RESOLVED**: To approve delegated powers to the Chief Officer from 26th March 2026 to 8th May 2026, known as the Pre-election Period. |

**Meeting Finished** at 8.pm

**Next meeting** 12th May 2026

# Cofnodion Cyfarfod Arbennig
# Cyngor Cymuned y Mwmbwls – 23 Mawrth am 6.30pm (cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Teams)

**Aelodau yn bresennol:** Y cynghorwyr Will Thomas (Cadeirydd), Francesca O'Brien, Carrie Townsend Jones, Ian Scott, Rob Marshall, Angela O'Connor, Helen Nelson, Phil Keeton, a Laura Gilbert

**Swyddogion yn bresennol:** Kerry Grabham – Y Prif Swyddog, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

Cyn i'r cyfarfod ddechrau, talodd y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, deyrnged i'r Cynghorydd Paxton Hood-Williams, y cyn-Arglwydd Faer a fu farw yn ddiweddar yn dilyn salwch byr. Roedd Paxton yn gynghorydd uchel ei barch, a oedd wedi gwasanaethu Abertawe gyfan, ond yn enwedig cymunedau Cilâ, Fairwood a'r Crwys gyda rhagoriaeth ers degawdau. Dymunodd y Cynghorydd Thomas gyfleu ei gydymdeimlad ar ran y cyngor cyfan i deulu Paxton.

| | |
|---|---|
| SC02603-01 | **Ymddiheuriadau am absenoldeb:** Y cynghorwyr Dave Lewis, Sara Keeton, Xanthe Keeton, Rebecca Fogarty, Tim Zhou, Martin O'Neill (Is-gadeirydd), a Trevor Carr |
| SC02603-02 | **Datganiadau o fuddiant:**<br>Gwnaeth y Cynghorydd O'Connor ddatganiad o fuddiant personol mewn perthynas ag eitem **SC02603-08** ar yr agenda oherwydd bod aelod o'r teulu yn gysylltiedig â Chlwb Rygbi'r Mwmbwls.<br><br>Gwnaeth y Cynghorydd Thomas ddatganiad o fuddiant personol mewn perthynas ag eitem **SC02603-18** ar yr agenda oherwydd ei gyfranogiad fel hyfforddwr chwaraewyr dan 9 oed gyda Chlwb Pêl-droed Mumbles Rangers.<br><br>Wedi hynny, gwnaeth y Cynghorydd Townsend Jones ddatganiad o fuddiant personol mewn perthynas ag eitem **SC02603-10** ar yr agenda oherwydd ei chyfeillgarwch â'r ceisydd grant, Bantani Cymru.<br><br>Yn ogystal, nodwyd bod y ddwy eitem agenda (**SC02603-07** Cais am grant gan Glwb Hwylio Môr Hafren, ac **SC02603-09** Grisiau mynwent Ystumllwynarth) wedi cael eu trafod, ac y cynhaliwyd pleidlais arnynt eisoes yn ystod cyfarfod y cyngor llawn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2026, ond oherwydd gwall clerigol eu bod wedi eu hepgor o'r agenda a gyhoeddwyd.<br><br>**PENDERFYNWYD** ailystyried y ddwy eitem agenda **SC02603-07** Cais am grant gan Glwb Hwylio Môr Hafren, ac **SC02603-09** Grisiau mynwent Ystumllwynarth, yn y cyfarfod presennol. |

| | |
|---|---|
| SCO2603-03 | **Cyfranogiad y cyhoedd**<br>(Yn unol ag adran 48 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Rheolau Sefydlog Cyngor Cymuned y Mwmbwls, dim ond ar eitemau agenda cyhoeddedig y gall aelodau'r cyhoedd wneud sylwadau. Rhaid i aelodau'r cyhoedd sydd am wneud sylwadau hysbysu'r prif swyddog o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y cyfarfod. Am gyfarwyddyd pellach, gweler Polisi Cyfranogiad y Cyhoedd ar wefan y cyngor.)<br><br>Amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, y gweithdrefnau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd.<br><br>Nid oedd unrhyw aelodau o'r cyhoedd yn bresennol ar ddechrau'r cyfarfod.<br><br>Ymunodd Mr Philip Slater â'r cyfarfod rhwng 6.43pm a 6.47pm. Roedd Mr Slater wedi nodi cyn y cyfarfod ei fod yn dymuno bod yn bresennol mewn perthynas â gohebiaeth gan Grŵp Cyfeillion a Phreswylwyr Mayals (gweler SCO2603-06). Roedd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau wedi darparu dolen i Mr Slater cyn y cyfarfod.<br><br>Ymunodd y Cynghorydd Nelson â'r cyfarfod am 7.34pm. |
| SCO2603-04 | **Cymeradwyo cofnodion cyfarfod y cyngor llawn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2026**<br><br>**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y cyngor llawn a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2026 fel cofnod cywir. |
| SCO2603-05 | **Penodi cynghorydd i gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw**<br>Ni wirfoddolodd unrhyw gynghorydd i gael ei benodi ar gyfer y swydd wag ar gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Gymraeg Llwynderw.<br><br>**PENDERFYNWYD** yn absenoldeb nifer o gynghorwyr yn y cyfarfod, y dylai'r prif swyddog ailgyhoeddi'r swydd wag i'r cynghorwyr, a mynd i'r afael â'r mater yng nghyfarfod nesaf y cyngor llawn. |
| SCO2603-06 | **Cymryd gohebiaeth gan Grŵp Cyfeillion a Phreswylwyr Mayals – ymateb i ymgynghoriad y fframwaith polisi cynllunio cenedlaethol (Pennod 9 – Telathrebu) – cwestiwn 95**<br>Nododd y Cynghorydd Nelson bryderon preswylwyr lleol, yn enwedig Philip a Caroline Slater, a oedd wedi mynegi pryderon ynghylch gosod mast ffonau symudol yn y Mayals. Roedd y pryderon hyn wedi eu nodi mewn llythyr a ddosbarthwyd i'r cynghorwyr cyn y cyfarfod.<br>Cafwyd trafodaeth ar y ffordd orau o fwrw ymlaen â'r pryderon hyn, a chonsensws y pwyllgor oedd y dylid anfon llythyr at Gyngor Dinas a Sir Abertawe / Llywodraeth Cymru ar ran Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn amlinellu'r pryderon dan sylw. |

| | |
|---|---|
| | **PENDERFYNWYD** y dylai'r Cynghorydd Nelson ddrafftio llythyr yn nodi'r pryderon uchod at sylw Cyngor Dinas a Sir Abertawe / Llywodraeth Cymru. Byddai gan y cynghorwyr a'r prif swyddog 24 awr i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch geiriad y llythyr. |
| SCO2603-07 | **Ystyried y cais am grant gan Glwb Hwylio Môr Hafren – Regata yr Arglwydd Faer**<br><br>Nodwyd gan y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, fod y cais am grant hwn wedi ei drafod a'i gymeradwyo yng nghyfarfod blaenorol y cyngor llawn (10 Mawrth 2026), er nad oedd wedi ei gyhoeddi'n gywir ar yr agenda.<br><br>Trafodwyd y cais ac er bod cynghorwyr yn ei gefnogi, codwyd pryderon nad oedd digon o fanylion am wariant wedi eu cynnwys yn y cais.<br><br>**PENDERFYNWYD** dyfarnu grant o £5,000 i Glwb Hwylio Môr Hafren er mwyn cyfrannu at Regata yr Arglwydd Faer, yn amodol ar ddarparu eglurhad ar y gwariant i'r prif swyddog.<br>**O gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig.**<br><br>Yn ystod yr eitem hon ar yr agenda, ymunodd Mr Philip Slater â'r cyfarfod am 6.43pm. Yn dilyn penderfyniad ar yr eitem hon, amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, ganlyniad yr eitem flaenorol (SCO2603-06) er budd Mr Slater, a wnaeth ymadael â'r cyfarfod wedyn, am 6.47pm. |
| SCO2603-08 | **Ystyried y cais am grant gan Glwb Rygbi'r Mwmbwls – Gŵyl Ieuenctid**<br>Amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, y cais am grant hwn, ac fe'i trafodwyd gan y cynghorwyr. Dywedodd y prif swyddog, pe bai'n llwyddiannus, byddai'r ceisydd yn cael cae 3G di-rent, ac y byddai'r grant yn talu am gostau ategol fel offer wedi eu llenwi ag aer i blant. Roedd pob cynghorydd yn cefnogi'r cais.<br><br>**PENDERFYNWYD** dyfarnu grant o £1,000 i Glwb Rygbi'r Mwmbwls er mwyn cyfrannu at redeg gŵyl rygbi ieuenctid Daniel de Jesus.<br>**O gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig.** |
| SCO2603-09 | **Grisiau mynwent Ystumllwynarth**<br>Nodwyd gan y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, fod y cais am grant hwn hefyd wedi ei drafod a'i gymeradwyo yng nghyfarfod blaenorol y cyngor llawn (10 Mawrth 2026), er nad oedd wedi ei gyhoeddi'n gywir ar yr agenda.<br><br>Trafodwyd y cais, ac roedd disgwyl iddo gostio cyfanswm o £15,000. Roedd y cynghorwyr o blaid gwella mynediad rhwng Newton a'r Mwmbwls i lawer o bobl ac nid dim ond i'r rhai a oedd am gael mynediad i'r fynwent. Gyda £12,000 eisoes wedi ei glustnodi ar gyfer y prosiect, roedd y £3,000 a oedd yn weddill wedi ei roi drwy gyllidebau unigol y cynghorwyr.<br><br>**PENDERFYNWYD** gwella grisiau mynwent Ystumllwynarth ger Heol Slade, gyda chyfanswm cyllideb o £15,000, gyda £3,000 ohono yn rhoddion gan y cynghorwyr. |

| | |
|---|---|
| SC02603-10 | **Ystyried argymhellion gan y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd**<br><br>**Amlinellodd y Cynghorydd Marshall, Cadeirydd y PwyllgorCyllid a Chydymffurfedd, yr argymhellion canlynol gan gyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Chydymffurfedd a gynhaliwyd ar 16 Mawrth 2026**<br><br>**1. Cais am Grant Ymddiriedolaeth Eglwys Linden**<br>Cais am grant o £6,000 er mwyn cyfrannu at gostau rhedeg Clwb Ieuenctid West Cross.<br><br>Roedd y cynghorwyr yn gefnogol i'r cais hwn, a nodwyd mai dim ond ar gyfer blwyddyn y gwnaed y cais hwn, tra bod y cais blaenorol ar gyfer tair blynedd.<br><br>**CAM GWEITHREDU** Pan fyddai'r ceisydd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am argymhelliad y cyngor, byddai'n cael gwybod y byddai'r cyngor llawn yn ailystyried cais pellach yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd.<br><br>**PENDERFYNWYD** dyfarnu grant o £6,000 i Ymddiriedolaeth Eglwys Linden, er mwyn cyfrannu at gostau rhedeg Clwb Ieuenctid West Cross.<br><br>**O gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig.**<br><br>Ymadawodd y Cynghorydd O'Brien â'r cyfarfod am 6.53pm.<br><br>**2. Cais am grant gan gwmni buddiant cymunedol The Hwb Collective**<br>Cais am grant o £2,000 er mwyn ehangu mynediad at ddysgu STEM ymarferol ar gyfer pobl ifanc yn y Mwmbwls / Abertawe trwy raglen prototeip fechan.<br><br>Roedd y cyngor llawn yn cefnogi barn aelodau'r pwyllgor, sef eu bod yn cefnogi'r cynllun ond yn pryderu nad oedd digon o wybodaeth wedi ei chyflwyno gan y ceisydd. Yn ogystal, roedd y cyngor llawn hefyd o'r farn nad oedd grantiau Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn addas ar gyfer rhaglenni addysgol o'r math hwn, ac y byddai cais yn cael ei ystyried yn fwy ffafriol ar ôl i raglen 'treial' neu 'beilot' ddigwydd a'i hasesu'n briodol.<br><br>**CAM GWEITHREDU** Pan fyddai'r ceisydd yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ar y rhesymeg dros beidio â chymeradwyo'r grant, dylid nodi bod Cyngor Cymuned y Mwmbwls yn blaenoriaethu grantiau ar gyfer prosiectau o fewn yr ardal a oedd yn cael ei chwmpasu gan Gyngor Cymuned y Mwmbwls.<br><br>**PENDERFYNWYD** peidio â dyfarnu grant o £2,000 i gwmni buddiant cymunedol The Hwb Collective er mwyn ehangu mynediad at ddysgu STEM ymarferol ar gyfer pobl ifanc yn y Mwmbwls / Abertawe trwy raglen brototeip fechan. |

**Commented [GE1]:** In the original English Document this is - "To Consider Recommendations from **Finance & Governance Committee"**.

We have translated this here as "To Consider Recommendations from **The Finance and Compliance Committee ".**

We think this is the committee referred to here.

**Commented [GE2]:** We believe this to be **The Hwb Collective CIC**.
In the original English document it is noted as **HWV Collective CIC Grant Application.**

We believe this is their website
About The Hwb Collective CIC | South Wales STEM and employability

**Commented [GE3]:** Again HWV in the original, but changed here to 'Hwb'

| | |
|---|---|
| | Dychwelodd y Cynghorydd O'Brien i'r cyfarfod am 6.57pm.<br><br>**3. Cais am grant gan gwmni buddiant cymunedol Bantani Cymru**<br>Cais am grant o £2,200 er mwyn cyfrannu at brosiect Cynefin yng Nghastell Ystumllwynarth.<br><br>Gwnaeth y Cynghorydd Townsend Jones ddatganiad o fuddiant personol mewn perthynas â'r eitem hwn ar yr agenda oherwydd ei chyfeillgarwch â cheisydd y grant. Cofnodwyd yn eitem **SCO260302**.<br><br>Roedd y cynghorwyr yn gefnogol i'r cais hwn ac yn cytuno ag aelodau'r pwyllgor, er ei fod yn addysgiadol, bod ffocws y prosiect yn ymwneud â hyrwyddo gwybodaeth am dreftadaeth leol a Chastell Ystumllwynarth yn benodol.<br><br>**PENDERFYNWYD** dyfarnu grant o £2,200 i gwmni buddiant cymunedol Bantani Cymru er mwyn cyfrannu at brosiect Cynefin yng Nghastell Ystumllwynarth.<br><br>**O gyllideb FC1 Grantiau Bach a Chanolig.**<br><br>**4. Cais am grant gan Glwb Bowlio'r Mwmbwls**<br>Cais am grant o £800 er mwyn cyfrannu at gostau cynnal a chadw'r lawnt fowlio.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Cytunodd y cynghorwyr ag aelodau'r pwyllgor y dylid gohirio cais Clwb Bowlio'r Mwmbwls tan gyfarfod nesaf y pwyllgor, i'w gynnal ym mis Mai, yn amodol ar gael eglurhad ar ei falans banc. Ceisiadau blaenorol i'w gwirio am ymholiadau tebyg. |
| **SCO2603-11** | **Ystyried adroddiad gan Stori'r Mwmbwls – Y Plinth**<br>Roedd y cadeirydd, y Cynghorydd Will Thomas, wedi dosbarthu dogfen cyn y cyfarfod. Nododd y Cynghorydd Thomas brif agweddau'r adroddiad hwn, gan gynnwys y cefndir o ran sut y codwyd y plinth ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd, a'i fod wedi ei symud er mwyn cynnal gwaith ailddatblygu amddiffynfeydd glan y môr.<br><br>Cafwyd trafodaeth ar adfer a gosod y plinth yn y dyfodol. Nodwyd bod Stori'r Mwmbwls wedi cytuno i gynorthwyo yn wirfoddol i lanhau ac adfer y plinth. Cynigiodd y Cynghorydd Thomas y dylid rhoi £250 ar gyfer y gwaith adfer ac, yn dilyn yr adferiad, y dylai Cyngor Cymuned y Mwmbwls gysylltu â Chyngor Dinas a Sir Abertawe ynghylch y lleoliad, gan gynnwys cludo'r plinth.<br><br>**PENDERFYNWYD** dyfarnu £250 ar gyfer adfer y plinth.<br>**O'r cronfeydd wrth gefn.** |
| **SCO2602-12** | **Cymryd a chymeradwyo cofrestr risg ariannol y cyngor**<br>Roedd y prif swyddog wedi dosbarthu cofrestr risg ariannol y cyngor cyn y cyfarfod, a thynnodd sylw'r cynghorwyr at y prif agweddau. |

| | |
|---|---|
| | Yn ystod y drafodaeth ddilynol, croesawyd y gofrestr a nodwyd bod angen gwneud nifer o fân ddiwygiadau.<br><br>**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofrestr risg ariannol y cyngor, yn amodol ar y prif swyddog yn gwneud y mân newidiadau a nodwyd. |
| SCO2603-13 | **Cymryd a chymeradwyo adroddiad blynyddol y cyngor**<br>Roedd y prif swyddog wedi dosbarthu adroddiad blynyddol y cyngor cyn y cyfarfod, a thynnodd sylw'r cynghorwyr at y prif agweddau.<br><br>Yn ystod y drafodaeth ddilynol, bu'r cynghorwyr yn canmol y prif swyddog am gyflwyno adroddiad o ansawdd mor uchel mewn amgylchiadau mor heriol. Roedd nifer o gamgymeriadau teipio yn amlwg, ac ynghyd ag awgrymiadau ar strwythur yr adroddiad, byddai'r cynghorwyr yn mynd i'r afael â nhw drwy anfon y gwelliannau drwy gyfrwng e-bost.<br><br>**CAM GWEITHREDU** Y Cynghorydd Townsend Jones i anfon adroddiad diwygiedig at y prif swyddog ar ôl cywiro camgymeriadau teipio a gwneud mân newidiadau eraill. Unrhyw gynghorydd ag awgrymiadau ar gyfer gwelliannau pellach i anfon neges e-bost at y prif swyddog fel mater o frys.<br><br>**PENDERFYNWYD** cymeradwyo adroddiad blynyddol y cyngor yn amodol ar y prif swyddog yn gwneud unrhyw newidiadau a nodwyd gan y cynghorwyr. |
| SCO2603-14 | **Ystyried a chymeradwyo datganiad cenhadaeth y cyngor**<br>Roedd y prif swyddog wedi dosbarthu dogfen yn amlinellu'r datganiadau cenhadaeth arfaethedig cyn y cyfarfod. Yna, tynnodd y prif swyddog sylw'r cynghorwyr at y prif agweddau gan egluro bod y tri opsiwn wedi eu cyflwyno ar ôl ymgynghori â'r gweithgor.<br><br>Yn ystod y drafodaeth ddilynol, bu'r cyngor yn ystyried yr opsiynau, ond roedd gwahaniaeth o ran barn y cynghorwyr ynglŷn â'r un mwyaf addas. O ganlyniad, cymerwyd pleidlais ar y tri opsiwn a ddaeth i law, gyda nifer o fân welliannau yn ofynnol.<br><br>**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r trydydd opsiwn ar gyfer datganiad cenhadaeth Cyngor Cymuned y Mwmbwls, sef:<br><br>***Gweledigaeth***<br>*Mwmbwls fywiog, gysylltiedig a chroesawgar—lle mae pobl, lleoedd, a bywyd cymunedol yn ffynnu.*<br><br>***Cenhadaeth***<br>*Cryfhau ein cymuned drwy fuddsoddi mewn mannau cynhwysol, cefnogi mentrau lleol,* |

| | |
|---|---|
| | *gwella llesiant a'r amgylchedd, a sicrhau bod ein penderfyniadau yn cyfleu lleisiau trigolion.* |
| SCO2603-15 | **Cymryd a chymeradwyo cynnydd argymhellion archwilio mewnol y cyngor**<br>Roedd y prif swyddog wedi dosbarthu'r adroddiad cynnydd ar argymhellion archwilio mewnol y cyngor cyn y cyfarfod. Tynnodd y prif swyddog sylw'r cynghorwyr at y prif agweddau, a bu'n ymateb i'w cwestiynau.<br><br>**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r adroddiad cynnydd ar argymhellion archwilio mewnol y cyngor. |
| SCO2603-16 | **Cymryd a chymeradwyo'r wybodaeth ddiweddaraf am Underhill**<br>Hysbyswyd y cyngor gan y prif swyddog nad oedd Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar Underhill yn ysgrifenedig eto. Hysbyswyd y cynghorwyr gan y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, ei fod wedi bod i gyfarfod cabinet Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn rhinwedd ei swydd fel un o gynghorwyr Cyngor Dinas a Sir Abertawe. Er nad oedd mewn sefyllfa i ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol, gallai'r Cynghorydd Thomas gadarnhau y cafwyd canlyniad cadarnhaol i'r cyfarfod mewn perthynas ag Underhill.<br><br>**PENDERFYNWYD** gohirio'r eitem agenda hon tan gyfarfod nesaf y cyngor llawn, i'w gynnal ym mis Mai 2026. |
| SCO2603-17 | **Cymeradwyo caniatâd cynllunio ar gyfer trac rhedeg ym Mharc Underhill**<br>Rhoddodd y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, eglurhad a'r cefndir i'r eitem hon. Dywedodd y Cynghorydd Thomas fod y syniad o drac rhedeg yn ei gamau cychwynnol, a'i fod yn ceisio cymorth mewn egwyddor i'r syniad. Roedd y llwybr dan sylw yn ymwneud â chreu llwybr newydd wrth ymyl y gwrych ar ochr ddwyreiniol Parc Underhill. Byddai hyn yn creu llwybr o amgylch Parc Underhill, a thrwy hynny yn creu trac i'r rhai a oedd yn dymuno gwneud ymarfer corff, yn enwedig loncwyr a cherddwyr. Yn y drafodaeth, cydnabuwyd y byddai'n hanfodol ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a'r gymuned gyfan.<br>Roedd mwyafrif helaeth y cyngor yn frwdfrydig am y prosiect hwn, gan gydnabod y byddai'n debygol o gymryd rhai blynyddoedd cyn ei gwblhau.<br><br>**PENDERFYNWYD** cefnogi'r cysyniad o lwybr rhedeg / cerdded o amgylch Parc Underhill. |
| SCO2603-18 | **Cymeradwyo caniatâd cynllunio er mwyn gwneud i Barc Underhill gydymffurfio â Haen 2 Cymdeithas Bêl-droed Cymru ar gyfer pêl-droed cynghrair Cymru, gan ganiatáu i dîm cyntaf ac ail dîm Mumbles Rangers ddychwelyd i Barc Underhill**<br>Rhoddodd y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, wybodaeth gefndirol i'r eitem hon ac amlinellodd amcanion clybiau pêl-droed lleol o ran cael cyfleusterau Haen 2, a fyddai'n cydymffurfio â safonau Cymdeithas Bêl-droed Cymru ar gyfer pêl-droed cynghrair Cymru.<br>Cefnogwyd y cais hwn gan y cyngor. |

| | |
|---|---|
| | **PENDERFYNWYD** cymeradwyo caniatâd cynllunio i gael Parc Underhill i gydymffurfio â safonau pêl-droed cynghrair Cymru Haen 2. |
| SCO2603-19 | **Cymeradwyo trosglwyddiad lwfans y cadeirydd i greu llinell gyllideb newydd ar gyfer regalia dinesig, a chytuno i brynu cadwyn newydd ar gyfer y cadeirydd**<br>Dywedodd y cadeirydd, y Cynghorydd Thomas, y byddai'n ildio canran o'i gyflog fel cadeirydd er mwyn prynu cadwyn swyddogol newydd.<br>Dywedodd y Cynghorydd Thomas hefyd na fyddai'n gwisgo na defnyddio'r gadwyn swyddogol tra yn y swydd, ond ei bod yn rhywbeth yr oedd am ei roi i'r pentref, ar ôl ei gyfnod fel cadeirydd.<br><br>**PENDERFYNWYD:** Roedd y cynghorwyr yn cefnogi cynnig y Cynghorydd Thomas, ac yn cymeradwyo unrhyw bryniant yn y dyfodol. Y farn gyffredinol o fewn y cyngor llawn oedd y dylai'r Cynghorydd Thomas wisgo unrhyw gadwyn swyddogol newydd ei hun cyn iddo orffen fel cadeirydd. |
| SCO2603-20 | **Cymeradwyo pwerau dirprwyedig i'r prif swyddog rhwng 26 Mawrth 2026 ac 8 Mai 2026, sef y cyfnod cyn-etholiadol**<br>Nododd y prif swyddog yr angen am bwerau dirprwyedig yn ystod y cyfnod cyn-etholiadol yn arwain at Etholiad Senedd Cymru ym mis Mai 2026. Yna bu'r prif swyddog yn ateb cwestiynau gan y cynghorwyr.<br><br>**PENDERFYNWYD** cymeradwyo pwerau dirprwyedig i'r prif swyddog rhwng 26 Mawrth 2026 ac 8 Mai 2026, sef y cyfnod cyn-etholiadol. |

**Daeth y cyfarfod i ben am 8pm**

**Cyfarfod nesaf:** 12 Mai 2026